

POLISI PREIFATRWYDD DATA UN LLAIS CYMRU

(Awst 2018)

Cyflwyniad a Chefndir

Mae'r polisi hwn yn ddatganiad gan Un Llais Cymru o sut mae'n ceisio cyflawni ei gyfrifoldebau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018 o ran preifatrwydd data personol. Dylid ei ddarllen ar y cyd â Pholisi Diogelu Data Un Llais Cymru a Hysbysiadau Preifatrwydd Un Llais Cymru, sy'n esbonio'n fanwl sut fydd data personol yn cael ei ddefnyddio a pha hawliau sydd gan bob gwrthrych data. (Mae un Hysbysiad Preifatrwydd yn ymwneud â'r cyhoedd, ac mae un arall ar gyfer staff a deiliaid swyddi allweddol Un Llais Cymru.)

Eich data personol – beth yw hwnnw?

“Data personol” yw unrhyw wybodaeth am unigolyn byw sy'n golygu y gellir eu hadnabod o'r data hwnnw (er enghraifft, enw, ffotograffau, fideos, cyfeiriad e-bost neu gyfeiriad cartref). Gellir adnabod unigolion o'r darnau hyn o ddata personol yn unig neu ar y cyd ag unrhyw ddata personol arall. Rheolir y gwaith o brosesu data personol gan ddeddfwriaeth yn ymwneud â data personol sy'n weithredol yn y Deyrnas Gyfunol, gan gynnwys y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (y “GDPR”) a deddfwriaeth leol arall yn ymwneud â data personol a hawliau o dan y Ddeddf Hawliau Dynol.

Gwybodaeth gyffredinol

Darperir y Polisi Preifatrwydd hwn ar eich cyfer gan Un Llais Cymru, sef y rheolydd data ar gyfer eich data. Cyfeiriad Un Llais Cymru ar gyfer gohebiaeth yw 24c Stryd y Coleg, Rhydaman, Sir Gaerfyrddin, SA18 3AF.

[Caiff peth data personol ei gymryd o wefan Un Llais Cymru; cyfeiriad y wefan yw <http://www.unllaiscymru.org.uk/OVWWeb/Default.aspx>]

Rheolyddion data

Mae rheolydd data yn berson neu sefydliad sy'n penderfynu ar fanylion sut a beth prosesu data (er enghraifft, sefydliad fel Un Llais Cymru), ac mae gan reolyddion data nifer o gyfrifoldebau pwysig yn ôl y gyfraith o ran data personol.

Mae gan rai sefydliadau drefniadau cyd reolyddion gyda sefydliadau eraill. [Nid oes gan Un Llais Cymru unrhyw drefniadau cyd reolydd o'r fath]

Efallai hefyd y bydd gan sefydliadau reolyddion data eraill y maent yn rhoi rhai eitemau o ddata personol iddynt, er enghraifft, Llywodraeth Cymru, awdurdodau unedol lleol, aelod gynghorau, contractwyr neu asiantaethau

gwirio credyd. [Nid oes gan Un Llais Cymru unrhyw drefniadau o'r fath gyda rheolyddion data eraill].

Pa ddata personol sy'n cael ei gasglu?

Cesglir categorïau gwahanol o ddata personol gan Un Llais Cymru, fel a ganlyn:

Enwau, teitlau, enwau eraill, ffotograffau;

Manylion cyswllt fel rhifau ffôn, cyfeiriadau a chyfeiriadau e-bost;

Pan maent yn berthnasol i'r gwasanaethau a ddarperir gan Un Llais Cymru, neu pan rydych yn ei rhoi inni, efallai y byddwn yn prosesu gwybodaeth ddemograffaid megis rhywedd, oed, statws priodasol, cenedligrwydd, hanes addysg/gwaith, cymwysterau academaidd/proffesiynol, diddordebau, cyfansoddiad teuluol a dibynyddion;

Pan rydych yn talu, neu'n cael eich talu, am unrhyw wasanaethau, digwyddiadau neu weithgareddau, dangosyddion ariannol megis rhifau cyfrifon banc, rhifau cardiau talu, dangosyddion taliadau/trafodion, rhifau polisi a rhifau hawliadau;

[Gall y data a broseswn gynnwys data personol sensitif neu gategoriâu arbennig eraill o ddata megis tarddiad hiliol neu ethnig, iechyd meddyliol neu gorfforol, manylion anafiadau, meddyginiaeth/triniaeth a dderbyniwyd, credoau gwleidyddol, aelodaeth o undebau llafur, data genetig, data biometrig, data ynghylch bywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol];

[O ran y data personol a gesglir trwy wefan Un Llais Cymru, gallai'r data hwn gynnwys gwybodaeth gweithgarwch (gan gynnwys data ymddygiad defnyddwyr), er enghraifft, gwybodaeth o syncroneiddio gyda meddalwedd neu wasanaethau eraill, rhyngweithio gyda chyfryngau cymdeithasol (ffwythiannol a/neu farchnata), gwybodaeth am daliadau, mynediad at broffiliau cyfryngau cymdeithasol a gwybodaeth ddemograffaid];

[O ran gwybodaeth a gesglir yn awtomatig wrth ddefnyddio'r gwasanaeth, gallai hynny gynnwys gwybodaeth dyfais (yn nodi natur y ddyfais a/neu ddangosyddion), gwybodaeth ymrestru (gan gynnwys cyfeiriad IP), gwybodaeth lleoliad (ac, efallai, sut gaiff y lleoliad hwn ei gasglu/ymhlygu), gwybodaeth synhwyro dyfeisiadau, y wefan flaenorol y buwyd ynddi, y math o borydd a/neu'r System Weithredu ac unrhyw rhyngweithio gyda negeseuon e-bost];

[Gwybodaeth o ffynonellau eraill, allai gynnwys rhaglenni atgyfeirio neu argymell a/neu ffynonellau sy'n hygyrch yn gyhoeddus];

[Gwybodaeth o gwcis neu dechnolegau tebyg (gan gynnwys codau mewn apiau) (gan gynnwys os yn achlysurol neu'n rheolaidd), allai gynnwys ymrestru hanfodol/dilysu neu fordwyo, ffwythiannedd (gosodiadau a gofir),

perfformiad a dadansoddeg (gan gynnwys data ymddygiad defnyddwyr), data hysbysebu neu ail-dargedu ac unrhyw feddalwedd trydydd parti a weinir ar ddefnyddwyr];

[Natur unrhyw gyfathrebu allanol gyda defnyddwyr gwefannau, gan gynnwys data e-bost, ffôn (llais) a ffôn (testun).]

Cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data

Bydd Un Llais Cymru yn cydymffurfio â chyfraith diogelu data. Dywed honno fod rhaid i'r data personol a gadwn amdanoch:

gael ei ddefnyddio'n gyfreithlon, yn deg ac mewn ffordd dryloyw;
gael ei gasglu at ddibenion dilys yn unig yr ydym wedi'u hesbonio'n glir ichi ac nid mewn unrhyw ffordd sy'n anghydnaws â'r dibenion hynny;
fod yn berthnasol i'r dibenion y rhoesom wybod ichi amdanynt ac yn gyfyngedig i'r dibenion hynny yn unig;
fod yn fanwl-gywir a chyfredol;
gael ei gadw cyhyd ag y mae ei angen i'r dibenion y rhoesom wybod ichi amdanynt;
gael ei gadw a'i ddinistrio'n ddiogel, gan gynnwys sicrhau y cymerir camau technegol a diogeledd priodol i ddiogelu eich data personol rhag cael ei golli, ei gamddefnyddio, mynediad a datgeliad diawdurdod.

Defnyddio data personol

Rydym yn defnyddio eich data personol ar gyfer rhai o'r pwrpasau canlynol neu bob un ohonynt:

i ddarparu gwasanaethau, sy'n cynnwys cael dealltwriaeth o'ch anghenion, i ddarparu'r gwasanaethau rydych yn gofyn amdanynt ac i ddeall beth allwn ei wneud ichi ac i roi gwybod ichi am wasanaethau perthnasol eraill;
i gadarnhau eich hunaniaeth er mwyn darparu rhai gwasanaethau;
i gysylltu â chi drwy'r post, e-bost, ffôn neu ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol (gan gynnwys Facebook, Twitter, WhatsApp);
i'n helpu i adeiladu darlun o sut rydym yn perfformio;
[i atal a darganfod twyll a llygredd wrth ddefnyddio arian cyhoeddus a, lle y bo angen, ar gyfer swyddogaethau gweithredu'r gyfraith];
[i'n galluogi i gyflawni pob cyfrifoldeb a grym cyfreithiol a statudol, gan gynnwys unrhyw swyddogaethau a ddirprwywyd];
i gynnal gweithdrefnau amddiffyn cynhwysfawr (gan gynnwys diwydrwydd dyladwy a thrin cwynion) yn unol ag arfer amddiffyn gorau o bryd i'w gilydd gyda'r bwriad o sicrhau bod pob plentyn ac oedolyn mewn perygl yn cael eu rhoi mewn amgylcheddau diogel ac yn gyffredinol er mwyn diogelu unigolion rhag niwed neu anaf yn ôl y galw;
i hyrwyddo buddiannau Un Llais Cymru;
i gadw ein cyfrifon a'n cofnodion ein hunain;
i holi eich barn neu ofyn am eich sylwadau;
i roi gwybod ichi am newidiadau i'n gweithgareddau, gwasanaethau, digwyddiadau, staff a deiliaid rolau;

i ddanfôn gwybodaeth atoch yr ydych wedi gofyn amdani ac a allai fod o ddiddordeb ichi (gallai'r rhain gynnwys gwybodaeth am ymgyrchoedd, apeliadau, prosiectau neu fentrau newydd eraill);
i brosesu trafodion ariannol perthnasol gan gynnwys grantiau a thaliadau am nwyddau a gwasanaethau a ddarparwyd;
i'n galluogi i gynnal dadansoddiad ystadegol o ddata fel y gallwn gynllunio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau.

[Gall ein prosesu gynnwys hefyd y defnydd o systemau CCTV ar gyfer atal troseddau ac erlyn troseddwyr.]

Beth yw'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol?

Mae Un Llais Cymru yn sefydliad sy'n gweithio dros gynghorau cymuned a thref ac yn eu cefnogi ledled Cymru. Caiff y rhan fwyaf o'ch data personol ei brosesu mewn ffordd sy'n cydymffurfio â gofynion ein haelod gynghorau. Weithiau mae angen prosesu data personol pobl sy'n defnyddio gwasanaethau Un Llais Cymru. Byddwn wastad yn rhoi ystyriaeth i'ch buddiannau a'ch hawliau. Mae'r Polisi Preifatwydd hwn yn esbonio'n fanwl eich hawliau chi a chyfrifoldebau Un Llais Cymru ichi.

[Efallai hefyd y byddwn yn prosesu data personol os oes angen hynny ar gyfer cyflawni contract gyda chi, neu i gymryd camau i gytuno contract.]

Weithiau bydd angen eich cydsyniad chi er mwyn defnyddio eich data personol. Byddwn yn cael y cydsyniad hwnnw cyn defnyddio eich data.

Rhannu eich data personol

Bydd Un Llais Cymru yn cymryd camau diogeledd priodol i ddiogelu eich data personol. Mae'r adran hon o'r Polisi Preifatwydd yn rhoi gwybodaeth am y trydydd partïon y bydd Un Llais Cymru yn rhannu eich data personol â nhw. Mae gan y trydydd partïon hyn gyfrifoldeb hefyd i gymryd camau diogeledd priodol a byddant yn atebol ichi yn uniongyrchol am y ffordd y prosesant ac y diogelant eich data personol. Mae'n debyg y bydd angen inni rannu eich data gyda rhai o'r canlynol neu bob un ohonynt (ond dim ond pan fod angen):

ein hasiantwyr, cyflenwyr a chontractwyr – er enghraifft, efallai y gofynnwn i ddarparwydd masnachol gyhoeddi neu ddisbarthu cylchlythyron ar ein rhan, neu i ofalu am feddalwedd ein cronfa ddata;

ar adegau, Llywodraeth Cymru, awdurdodau unedol lleol, aelod gynghorau, sefydliadau neu gyrff eraill yr ydym yn cynnal mentrau ar y cyd â nhw, contractwyr neu asiantaethau gwirio credyd.

[Nid oes gan Un Llais Cymru unrhyw drefniadau cyd reolydd ar hyn o bryd] neu [Manylion presennol y trefniadau cyd reolydd ar gyfer Un Llais Cymru (yn cynnwys manylion am y data perthnasol) yw ...]

[Nid oes gan Un Llais Cymru unrhyw drefniadau gyda rheolyddion data eraill ar hyn o bryd] neu [Manylion presennol y rheolyddion data eraill sy'n berthnasol i Un Llais Cymru (yn cynnwys manylion am y data perthnasol) yw ...]

Am faint o amser ydym ni'n cadw eich data personol?

Byddwn yn cadw rhai cofnodion yn barhaol os oes gennym gyfrifoldeb cyfreithiol i wneud hynny. Efallai y cadwn rai cofnodion eraill am gyfnodau estynedig. Er enghraifft, mae'n arfer gorau ar hyn o bryd i gadw cofnodion ariannol am o leiaf 8 mlynedd er mwyn hwyluso archwiliadau HMRC neu i ddarparu gwybodaeth drethiannol. Caniateir i Un Llais Cymru gadw data er mwyn amddiffyn neu wneud hawliadau, ac mewn rhai sefyllfaoedd mae'r gyfraith yn nodi terfyn amser ar gyfer hawliadau o'r fath. Byddwn yn cadw peth data personol i'r perwyl hwnnw os ydym yn credu fod ei angen er mwyn gallu amddiffyn neu wneud hawliad. Yn gyffredinol, gwnawn ein gorau i gadw data dim ond cyhyd ag y mae ei angen arnom. Golyga hynny y byddwn yn ei ddileu pan nad ydym ei angen mwyach.

[Ceir rhagor o fanylion am gadw data ym Mholisi Cadw Data Un Llais Cymru.]

Eich hawliau a'ch data personol

Mae gennych yr hawliau canlynol o ran eich data personol:

(Wrth weithredu unrhyw un o'r hawliau a restrir isod, er mwyn prosesu eich cais, efallai y bydd angen inni wirio eich enw er eich diogelwch chi. Mewn sefyllfaoedd o'r fath bydd angen ichi ymateb trwy ddangos prawf o bwy ydych cyn y gallwch weithredu'r hawliau hyn.)

Yr hawl i weld data personol sydd gennym amdanoch

Yr hawl i gywiro a diweddarau'r data personol sydd gennym amdanoch

Yr hawl i ofyn inni ddileu eich data personol

Yr hawl i wrthwynebu i brosesu eich data personol neu ei gyfyngu i rai pwrpasau yn unig

Yr hawl i symudedd data

Yr hawl i dynnu eich cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg i brosesu data y cafwyd cydsyniad ar ei gyfer

Yr hawl i gyflwyno cwyn gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar 0303 123 1113 neu drwy e-bost yn <https://ico.org.uk/global/contact-us/email/> neu yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire SK9 5AF.

Trosglwyddo Data Dramor

Ni fydd unrhyw ddata personol sy'n cael ei drosglwyddo i wledydd neu diriogaethau y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd ("EEA") ond yn cael ei roi ar systemau yn cydymffurfio â chymau sy'n cynnig yr un amddiffyniad i

hawliau personol trwy gytundebau neu gontractau rhyngwladol a gymeradwywyd gan yr Undeb Ewropeaidd. [Mae ein gwefan hefyd yn hygyrch o wledydd tramor, ac o'r herwydd efallai y ceir mynediad at beth data personol (mewn cylchlythyr er enghraifft) o wledydd tramor.]

Prosesu ychwanegol

Os ydym yn dymuno defnyddio eich data personol at bwrpas newydd nad yw'n cael ei gynnwys yn y Polisi Preifatrwydd hwn, byddwn yn rhoi ichi Hysbysiad Preifatrwydd yn esbonio'r defnydd newydd hwn cyn cychwyn y prosesu ac yn nodi'r pwrpasau perthnasol a'r amodau prosesu. Pryd bynnag y bo angen, byddwn yn gofyn am eich cydsyniad cyn y prosesu newydd.

Newidiadau i'r polisi hwn

Byddwn yn adolygu'r Polisi Preifatrwydd a'n Hysbysiadau Preifatrwydd yn rheolaidd a byddwn yn rhoi unrhyw ddiweddariadau ar wefan Un Llais Cymru - <http://www.unllaiscymru.org.uk/OVWeb/Default.aspx> [Diweddarwyd y Polisi hwn ddiwethaf ym mis [Awst 2018].

Manylion Cyswllt

Dylech gysylltu ag Un Llais Cymru os oes gennych unrhyw gwestiynau am y Polisi Preifatrwydd hwn neu'r data personol sydd gennym amdanoch, neu i ddefnyddio eich holl hawliau perthnasol neu wneud ymholiadau neu gwynion.

Cyfeiriad Un Llais Cymru ar gyfer gohebiaeth yw 24c Stryd y Coleg, Rhydaman, Sir Gaerfyrddin, SA18 3AF neu gweinydd@unllaiscymru.cymru